MOSTYN

DATGANIAD I'R WASG – 30 Hydref 2017

MILLTIROEDD O GREADIGRWYDD
Dyddiadau'r arddangosfa: 18 Tachwedd 2017 - 18 Chwefror 2018

Yn cynnwys y bobl/sefydliadau creadigol canlynol:
Beacon Garage, Trish Bermingham, Lin Cummins, Wendy Dawson, Tim Dickinson, Glyn Ellis, Nick Elphick, Julia S. Greaves, Lizzie Hughes, Mark Hughes, Anna Jones, Richard Cynan Jones, Patrick Joseph, Judith Bond Cakes, Barry Morris, North Wales Vapour, Pea J. Restall, Miguel Roque, Mike Ryder, Alana Tyson, Alan Whitfield, Wild Horse Brewery, Emrys Williams, Gwyn Williams, Susan Williams, Sandra Wynne

Mae *Milltiroedd o Greadigrwydd* yn arddangosfa grŵp sy'n edrych ar y weithred greadigol a pherthynas hynny â thref Llandudno, ac mae'n cynnig ciplun o waith sydd wedi'i greu gan artistiaid a chan bobl greadigol sy'n gweithio mewn meysydd nad ydynt yn cael eu harddangos mewn oriel gelf fel arfer.

Mae'r arddangosfa yn deillio o arolwg curadur o'r ardal sy'n agos iawn i'r oriel, ac mae'n edrych ar greadigrwydd a meddwl rhyng-ddisgyblaeth yn fwy helaeth. Nid yw'n rhoi cymaint o bwys ar beth sy'n 'gelf' a beth sydd ddim, ond yn hytrach yn dathlu creadigrwydd, y gwahanol syniadau sy'n cyd-fodoli ochr yn ochr yn y llefydd mwyaf annisgwyl ac anfwriadol. Mae'r arddangosfa yn cynnwys cymysgedd eclectig o baentiadau, bragu, ffotograffiaeth, pobi cacennau, lluniadau, e-sigarennau, cerflunio, teilwra a pherfformiadau.

Mae curadur yr arddangosfa wedi gosod cyfyngiad, sef bod y sioe yn cynnwys pobl sy'n gweithio ac yn byw o fewn radiws milltiroedd penodol i oriel MOSTYN. Mae hyn wedi'i ysbrydoli'n rhannol gan arferion artistiaid cysyniadol cynnar sydd wedi'u seilio ar reolau. Cafodd y cyfyngiadau eu gosod er mwyn cynnig sylwadau ar oddrychedd a gwrthrychedd, ar feddwl a gwneud, ac mae'r arddangosfa'n parhau yn yr ysbryd hwnnw.

Mae'r arddangosfa'n creu cysylltiadau â'r bobl sy'n preswylio yn yr ardal leol gan siarad am faterion gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol ein dydd. Wrth wneud hynny, mae'r arddangosfa'n parhau â'r meddwl a oedd y tu ôl i sawl arddangosfa flaenorol yn oriel MOSTYN. Roedd *Siwrnai Ddychwelyd* (2014) yn cyflwyno gwaith gan nifer o artistiaid wedi'u geni yn y DU ac yn edrych, mewn amrywiol ffyrdd, ar eu hymdeimlad o le a man geni. Mae ennyn diddordeb pobl sy'n lleol i'r oriel hefyd yn estyniad o'r *Gyfres Hanes* (2014-17), sef dilyniant o arddangosfeydd a oedd yn edrych ar hanes adeiladu a thref Llandudno, gan gynnwys arteffactau, dogfennau a delweddau wedi'u casglu mewn deialog gyda thrigolion, ac wedi'u cyflwyno ochr yn ochr â gwaith gan artistiaid cyfoes.

Mae'r arddangosfa hon wedi cael ei churadu gan Adam Carr, Curadur Rhaglen Celfyddydau Gweledol, MOSTYN, a bydd yn cael ei chyflwyno ochr yn ochr â Milltiroedd o Greadigrwydd, arddanosfa wedi'i churadu gan Alfredo Cramerotti, Cyfarwyddwr, MOSTYN

Ynglŷn â MOSTYN
Wedi'i lleoli yn nhref arfordirol Llandudno, yng Ngogledd Cymru, MOSTYN yw oriel a chanolfan celfyddydau gweledol cyfoes mwyaf blaenllaw Cymru, ac mae'n bartner allweddol o rwydwaith sefydliadau celf PlusTate yn y DU. Mae MOSTYN yn bywiogi bywydau pobl drwy'r celfyddydau gweledol ac yn eu hysbrydoli nhw i lunio a rhannu persbectifau newydd.

Mae MOSTYN yn derbyn cefnogaeth ariannol gan Gyngor y Celfyddydau yng Nghymru a chan Wasanaeth Celf Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
Mae Oriel Mostyn Cyf. yn elusen gofrestredig sy'n masnachu fel MOSTYN.

MOSTYN, 12 Vaughan Street, Llandudno, Conwy, LL30 1AB
+44(0)1492 879201 www.mostyn.org

Ar Agor: Dydd Mawrth - Dydd Sul
10.30yb– 4.00yp
MYNEDIAD AM DDIM

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

PLUS TATE